

amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth



Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH
Luc 18: 35-43



ADNOD
ALLWEDDOL
Luc 18: 43

Gofynnwch i rywun
eich helpu i chwilio
am yr adnod.

Stori I Dyn dall yn gweld

Roedd dyn dall yn eistedd wrth ochr y ffordd. Roedd pobl yn ei basio ar eu ffordd i Jericho. Doedd e ddim yn gallu gweld ac felly doedd e ddim yn gallu gweithio. Roedd rhaid iddo gardota am arian. Un diwrnod, roedd y dyn dall yn gwybod bod rhywbeth arbennig yn digwydd. Roedd yn gallu clywed sŵn tyrfa fawr yn parablu'n gyffrous. "Beth sy'n digwydd?" gofynnodd. "Mae lesu o Nasareth yn dod," medden nhw. lesu o Nasareth! Roedd y dyn dall yn gwybod mai ef oedd y Gwareddwr. Byddai lesu'n gallu ei helpu ef – nid trwy roi arian ond trwy roi ei olwg iddo. "lesu, Fab Dafydd, helpa fi!" gwaeddodd y dyn nerth esgyrn ei ben. Roedd rhai pobl yn grac wrth y dyn dall am weiddi. "Sshhh!" medden nhw. Ond roedd e'n dal i weiddi.



C Llanwch y bylchau.

Roedd y dyn yn c _____ wrth ochr y ffordd.

Clywodd fod I _____ yn dod. Dechreuodd w _____ am help
ond dywedodd rhai pobl wrtho am fod yn d _____.



Clywodd lesu ef ac roedd yn gwybod bod angen help arno. Stopiodd a gofynnodd i rywun ddod â'r dyn dall ato. "Beth wyt ti eisiau i mi ei wneud i ti?" gofynnodd lesu. "Arglwydd, rwy eisiau gweld," atebodd y dyn dall. Roedd lesu'n falch fod y dyn dall yn credu ynddo. Dywedodd lesu wrtho y byddai'n gallu gweld – achos ei fod yn credu yn lesu. Roedd y dyn yn gallu gweld ar unwaith! Allwch chi ddychmygu sut oedd yn teimlo? Roedd yn gallu gweld wyneb lesu ac roedd yn gwybod y byddai ei fywyd yn holol wahanol o hyn ymlaen. Wrth i lesu gerdded ymlaen, roedd y dyn yn ei ddilyn, gan foli Duw.

C Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau isod yn gywir neu'n anghywir.

Clywodd lesu'r dyn yn galw arno.

Aeth lesu a sefyll wrth ei ochr.

Gofynnodd y dyn i lesu am arian.

Dywedodd lesu y byddai'n gallu gweld.

Roedd gan y dyn ffydd yn lesu.


Pan oedd y dyn yn gallu gweld, fe ddilynodd lesu.

12

Mae lesu'n fodlon eich helpu chi hefyd!

Mae'n gallu cymryd eich pechod a rhoi dechrau newydd i chi.

Beth am ofyn iddo'ch helpu fel y gwnaeth y dyn yn y storï?



amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Enw _____



DARLLENWCH
Ioan 6: 1-14



ADNOD
ALLWEDDOL
Ioan 6: 35

Gofynnwch i rywun
eich helpu i chwilio
am yr adnod.

Stori 2 Bwydo'r dyrfa.

Roedd tyrfa fawr yn dilyn lesu. Edrychodd lesu o'i gwmpas a gweld llawer iawn o bobl. Roedd yn gwybod y byddai eisiau bwyd ar y bobl cyn hir. Roedden nhw mewn lle unig. Lle fydden nhw'n cael bwyd? Roedd lesu'n gwybod sut y byddai'n eu bwydo nhw.

Ceisiodd Philip, un o ddisgyblion lesu, gyfrif faint o arian y byddai ei angen i fwydo pawb yn y dyrfa. Yna daeth disgybl arall, Andreas, o hyd i fachgen oedd wedi dod â phum toth fach a dau bysgodyn gydag ef. Doedd Andreas ddim yn meddwl y byddai hyn yn ddigon i fwydo pawb.



C Tynnwch linell o lun y ddua ddisgybl i'r swigen siarad sy'n dangos beth oedden nhw'n ei feddwl.

Does dim
digon o fwyd i
bawb yma.

Byddai'n costio
gormod i
fwydo pawb.




Philip



Andreas

C Tynnwch lun y
pethau eraill oedd
gan y bachgen yn ei
becyn bwyd ac
ysgrifennu'r rhifau
isod.



4

___ torth a
___ bysgodyn.

Dim ond lesu fyddai'n gallu bwydo'r dyrfa. Gofynnodd i bawb eistedd ar y glaswellt. Roedd yno 5000 o ddynion – a merched a phlant hefyd. Cymerodd lesu'r pum torth a'r ddua bysgodyn oedd gan y bachgen bach a diolch i Dduw amdanynt.

Pasiwyd y bwyd o gwmpas – ac roedd digon i bawb! Gan mai lesu yw Creawdwr pob peth, roedd yn gallu gwneud bwyd i bawb.

Ar ôl iddyn nhw orffen bwyta, gofynnodd lesu i'r disgylion gasglu'r bwyd oedd dros ben. Llanwyd 12 o fasgedi! Roedd mwy na digon ac roedd pawb wedi cael llond ei fol.

C Tynnwch linell rhwng dechrau'r gwahanol frawddegau a'r diweddf cywir.

Eisteddodd y bobl	dros ben.
Diolchodd lesu	ar y glaswellt.
Roedd digon	am y bwyd.
Roedd 12 basgedaid	i bawb.

8

Wrth i'r bobl ddod i ddeall beth oedd wedi digwydd, fe sylweddolon nhw nad dyn cyffredin oedd lesu. Yn nes ymlaen, esboniodd lesu wrth y disgylion pwy yw ef mewn gwirionedd.

Lliwiwch beth ddywedodd lesu.

GOFi YW
bara'r
bywyd.

4

Byddai hyn yn atgoffa'r bobl bod lesu wedi rhoi bwyd iddynt ar gyfer eu cyrff. Mae hefyd yn ein dysgu y gall lesu roi bywyd tragwyddol i ni.



DARLLENWCH
Ioan 5: 1-15




ADNOD
ALLWEDDOL
Ioan 5: 24

Gofynnwch i rywun
eich helpu i chwilio
am yr adnod.

Stori 3 Dyn cloff yn cerdded


Ydych chi wedi syrthio a
brifo'ch coes erioed? Mae'n
siŵr eich bod chi. Efallai eich
bod wedi cael bandej neu
blastr ac wedi cael trafferth
cerdded. Doedd y dyn yn y
stori heddiw ddim yn gallu
cerdded ers 38 o
flynyddoedd!



Bob dydd, roedd yn eistedd ar lan pwll Bethesda gyda llawer o bobl eraill oedd
yn sâl. Roedden nhw'n aros i weld a fyddai'r dŵr yn byrlymu. Roedden nhw'n
credu y byddai'r un cyntaf i fynd i mewn i'r dŵr pan fyddai'n byrlymu yn cael ei
wella. Byddai'n anodd iawn i'r dyn cloff gyrraedd y dŵr gyntaf gan nad oedd
ganddo neb i'w helpu.

C Llanwch y bylchau.

1. Pa ran o'ch corff sy'n achosi trafferth
os ydych yn gloff?



2. Doedd y dyn ddim wedi cerdded
ers 38 o _____.

3. Roedd llawer o _____ ar lan y pwll.

4. Os ydych yn gloff, rydych yn
cael _____ i gerdded.

8

Un diwrnod, daeth lesu heibio. Stopiodd a siarad â'r
dyn cloff.



"Wyt ti eisiau gwella?" gofynnodd lesu. Dywedodd y
dyn nad oedd ganddo neb i'w helpu i fynd i mewn i'r
dŵr.

"Cwyd ar dy draed, cwyd dy wely a cherdd," meddai
lesu. Doedd y dyn ddim yn gallu gwneud hyn fel arfer.
Ond fe wnaeth beth ddywedodd lesu wrtho ac roedd
yn gallu cerdded!




Mae'n siŵr ei fod wrth ei fod pan welodd ei fod yn gallu cerdded. Byddai'n cael bywyd newydd! Fyddai e ddim yn gorfod eistedd ar lan y llyn yn disgwyli iddo fyrlymu eto.

C Rhowch y brawddegau hyn yn y drefn gywir (1 – 3)



6

C Tynnwch lun wyneb y dyn i ddangos sut roedd yn teimlo ar ôl i lesu ei helpu i gerdded.



2

C Rhowch gylch o gwmpas y gair sy'n disgrifio sut roedd yn teimlo.

trist

blinedig

hapus

blin

4



Er bod y dyn wedi cael ei wella, doedd e ddim yn deall pwy oedd lesu. Yn nes ymlaen, gwelodd y dyn lesu eto yn y deml. Y tro hwn, bu lesu'n siarad ag ef am faddau. Lesu yw'r unig un sy'n gallu maddau ein pechodau. Mae angen i lesu faddau ein pechodau fel y gallwn ni fod yn ffrindiau â Duw.

amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Enw _____



DARLLENWCH
Marc 5: 21-43




ADNOD
ALLWEDDOL
Marc 5: 42

Gofynnwch i rywun
eich helpu i chwilio
am yr adnod.


Stori 4 Merch oedd wedi marw'n dod yn fyw!

Roedd Jairus yn ddyn pwysig yn ei dref. Roedd ganddo ferch 12 oed. Roedd hi'n sâl iawn a doedd neb yn gallu ei helpu. Yna, meddyliodd Jairus am Iesu. Roedd e'n gallu helpu pobl! Gwthiodd Jairus trwy'r dyrfa i gyrraedd Iesu. Cwymodd wrth draed Iesu a gofyn iddo ddod i wella ei ferch. Gwelodd Iesu fod Jairus yn drist iawn ac aeth adref gydag ef.



C Pwy oedd yn sâl? _____ Jairus.

C Pwy aeth Jairus i chwilio amdano? _____.



Tra oedden nhw ar y ffordd, daeth dynion â newyddion drwg. "Mae dy ferch wedi marw," medden nhw. "Does dim rhaid i ti boeni Iesu nawr." Mae'n siŵr bod Jairus yn drist iawn wrth feddwl bod Iesu'n rhy hwyr. Ond rhoddodd Iesu dipyn bach o obaith i Jairus. "Paid â bod ofn. Creda," meddai wrth Jairus. Cyn hir, cyrhaeddodd nhw gartref Jairus. Roedd llawer o bobl wedi dod yno i gydymdeimlo â'r teulu. Aeth Iesu â rhieni'r ferch a thrï o'i ddisgyblion i'r ystafell lle'r oedd y ferch.

Gafaelodd yn dyner yn llaw'r ferch a dweud wrthi am godi. Roedd pawb yn synnu o weld y ferch yn codi ac yn cerdded o gwmpas!

Fe gafodd rywbed i'w fwyta. Allwch chi ddychmygu sut oedd Jairus yn teimlo ar ôl i lesu ddod gydag ef a dod â'i ferch yn ôl yn fyw?

4

C Faint oedd oed y ferch?

C Faint o ddisgyblion aeth i'r ystafell gyda lesu?

C Beth wnaeth lesu i'r ferch? Tynnwch linell trwy'r atebion anghywir.

Anadloedd arni.



Gafaelodd yn ei llaw.

Dywedodd wrthi am godi.

Cododd ei phen.

4

C Gnewch y pos jig-so trwy ysgrifennu'r geiriau ar y darnau cywir i ddangos beth ddigwyddodd.



4

Gan fod lesu'n Fab Duw, roedd yn gallu rhoi bywyd i'r ferch. Dylen ni ddiolch bob dydd am gael byw. Dyna braf yw cael byw a mwynhau'r pethau da y mae Duw wedi'u rhoi i ni. Mae lesu eisiau i ni gael math arall o fywyd hefyd - bywyd tragwyddol. Os byddwn yn credu yn lesu, bydd yn maddau ein pechodau a rhyw ddiwrnod cawn fynd i'r Nefoedd. Beth am ddiolch i lesu am farw drosoch er mwyn i chi gael bywyd tragwyddol?

Lliwiwch y geiriau.

Mae **Duw yn rhoi bywyd** **tragwyddol**
yng **Nghrist Iesu** **ein Harglwydd.**

4

Rhufeiniaid 6: 23

cifanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cifanswm

Cifanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddimm ar www.biblelinkit.com neu ffôn i 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynys Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddimm o www.amserbeibl.org.
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Powys, LL53 6SH % 01766 819120